Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Ymateb i argymhellion grŵp adolygu Cymraeg ail iaith

# Ymateb i argymhellion grŵp adolygu Cymraeg ail iaith

**Cynulleidfa**
Ymarferwyr Cymraeg a Chymraeg ail iaith; dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4; rhieni/gofalwyr; awdurdodau lleol; consortia addysg; canolfannau hyfforddi athrawon cychwynnol; sefydliadau dyfarnu; Comisiynydd y Gymraeg; ysgolion y Gymraeg y prifysgolion; a rhanddeiliaid a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â'r maes.

**Trosolwg**
Ym mis Gorffennaf 2012, sefydlodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau grŵp i adolygu Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 i ystyried sut i godi safonau a lefelau cyrhaeddiad yn y pwnc. Cyhoeddwyd adroddiad y Grwp *Un iaith i bawb* ym mis Medi 2013. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Grŵp.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Uned y Gymraeg mewn Addysg
Is-adran y Gymraeg
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT
Tel: 0300 062 5495
e-mail: addysg.gymraeg@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/wagreviews/one-lanuage-for-all/?skip=1&lang=cy

**Dogfennau cysylltiedig**
*Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4* (2013)
*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (2010)
Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17 (2012)

ISBN digidol 978 1 4734 1414 3
© Hawlfraint y Goron Mai 2014
WG21979

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Ymateb i'r argymhellion – y cwricwlwm** | **3** |
| **Ymateb i argymhellion eraill** | **5** |

# Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2012, sefydlodd fy rhagflaenydd grŵp i adolygu Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 er mwyn ystyried sut i fynd i'r afael â safonau a chyrhaeddiad isel yn y pwnc. Roedd aelodaeth y grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o drawstoriad o randdeiliaid dan Gadeiryddiaeth yr Athro Sioned Davies, Pennaeth Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Prif amcan y Grŵp oedd ystyried pa newidiadau y dylid eu gwneud i addysgu ac asesu Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 i alluogi i fwy o ddysgwyr ddefnyddio'r iaith yn effeithiol o fewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Gofynnwyd i'r grŵp gyflwyno adroddiad yn egluro eu hargymhellion.

Roedd adroddiad y Grŵp Adolygu Cymraeg ail iaith, *Un iaith i bawb*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013, yn tynnu sylw at nifer o gwestiynau am y dull cyfredol o ddysgu Cymraeg ail iaith ac yn archwilio themâu yr wyf i nawr yn ymrwymo i fynd i'r afael â nhw yn ystod y cyfnod gwaith nesaf yn ein hadolygiad o drefniadau'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru.

Ar 12 Mawrth cyhoeddais y byddai'r Athro Graham Donaldson yn cadeirio adolygiad annibynnol o'r trefniadau hyn ac y byddai'n cyflwyno argymhellion i fwydo i'n gwaith o ddatblygu Cwricwlwm i Gymru. Bydd adroddiad y Grŵp yn rhan bwysig o'r sail tystiolaeth wrth i'r Athro Donaldson symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Bydd yr holl newidiadau i'r modd y caiff y Gymraeg ei dysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg i wella safonau Cymraeg ail iaith er mwyn galluogi pobl ifanc i ddod yn siaradwyr Cymraeg cymwys yn y dyfodol. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at yr ymrwymiad a wnaed yn strategaeth y Gymraeg, *Iaith fyw: iaith byw*, i gynyddu darpariaeth gweithgareddau Cymraeg eu hiaith i blant a phobl ifanc a'u hymwybyddiaeth o werth yr iaith.

Hoffwn ddiolch i'r Athro Sioned Davies ac aelodau o'r Grŵp Adolygu Cymraeg ail iaith am eu holl waith yn cynhyrchu'r adroddiad a'i argymhellion. Hoffwn hefyd estyn diolch i bawb a fu'n gweithio gyda nhw ac a fu'n darparu tystiolaeth. Mae amrywiol randdeiliaid wedi cyfrannu at ddatblygu'r adroddiad hwn a byddwn yn parhau i weithio gyda nhw a gyda phartneriaid eraill wrth symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Mae argymhellion *Un iaith i bawb* yn niferus ac amrywiol. Mae rhai eisoes yn derbyn sylw tra bo eraill yn argymhellion tymor hir ac yn ymwneud â'r gwaith angenrheidiol y bu cryn aros amdano i ailwampio darpariaeth Cymraeg ail

iaith. Isod rwyf i wedi gosod fy ymateb cyntaf i’r argymhellion. Wrth wneud hyn rwyf i wedi grwpio’r argymhellion hynny sy’n ymwneud â’r cwricwlwm yn gyntaf a bydd y rhain yn cael eu hystyried gan yr Athro Donaldson.

**Huw Lewis AC**
**Gweinidog Addysg a Sgiliau**

## Ymateb i'r argymhellion – y cwricwlwm

**Argymhelliad 1**
Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymraeg ail iaith yn parhau i fod yn bwnc statudol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a pharhau i fod yn bwnc gorfodol i bob disgybl yng Nghymru tan ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.

**Argymhelliad 2**
Llywodraeth Cymru i roi statws cydradd i Gymraeg ail iaith yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod y pwnc yr un mor bwysig â'r pynciau craidd mewn mesurau perfformiad.

**Argymhelliad 4**
Llywodraeth Cymru i wneud cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol Cymru a'r Gymraeg yn rhan annatod o'r cwricwlwm ar draws pob pwnc er mwyn i ddisgyblion ddod i ddeall cyd-destun yr iaith a deall cyfraniad yr iaith i Gymru a Chymreictod.

**Argymhelliad 6**
Llywodraeth Cymru i adolygu'r rhaglen astudio Cymraeg, dros gyfnod o dair i bum mlynedd, a defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol ar gyfer Cymraeg fel sylfaen ar gyfer cwricwlwm diwygiedig gan gynnwys:

- un continwwm o ddysgu Cymraeg, ynghyd â disgwyliadau clir ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a lleoliadau dwyieithog a
- chanllawiau, deunyddiau cefnogi a hyfforddiant.

O ganlyniad byddai'r elfen Cymraeg ail iaith yn y rhaglen astudio Cymraeg yn cael ei disodli ynghyd â'r term Cymraeg ail iaith.

**Argymhelliad 10 (a)**
Llywodraeth Cymru, o fewn tair i bum mlynedd, i ddatblygu disgrifiadau lefel newydd o fewn y rhaglen astudio Cymraeg diwygiedig a chynhyrchu canllawiau i ysgolion sy'n cynnwys diffinio disgwyliadau i ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg.

Ar ben hynny, dylid ystyried cyflwyno prawf darllen Cymraeg i ddisgyblion 8-14 oed mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Cyn i'r trefniadau newydd gychwyn, byddai angen cynnal hyfforddiant i baratoi athrawon a'u hysbysu o'r gofynion newydd. Byddai angen adnoddau addysgu cenedlaethol newydd hefyd i gyd-fynd â'r datblygiadau.
.

Rwyf i wedi gofyn i'r Athro Donaldson ystyried yr argymhellion pwysig hyn fel rhan o'i adolygiad annibynnol o'n trefniadau cwricwlwm ac asesu.

Wrth aros am ganlyniad yr adolygiad hwn, caiff ystyriaeth bellach ei rhoi i'r modd y caiff unrhyw rai o'n newidiadau i'r cwricwlwm eu llywodraethu a'u rhoi ar waith. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yr angen am hyfforddiant penodol, adnoddau addysgu a dysgu ac arweiniad i gynorthwyo â'u cyflwyno. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymroddedig i hyfforddiant a datblygu proffesiynol

er mwyn cynorthwyo ein gweithlu ac fel offerynnau ar gyfer cynnal safonau'r ddarpariaeth.

## Ymateb i argymhellion eraill

**Argymhelliad 3**
Estyn i ddangos yn gliriach sut y mae safonau mewn Cymraeg ail iaith yn cyfrannu at eu barn gyffredinol am yr ysgol gyfan ac i gynnwys argymhellion ar gyfer gwelliant pan fo'n berthnasol.

Rwyf i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Serch hynny, arolygiaeth annibynnol yw Estyn ac felly bydd angen i unrhyw newidiadau i'r Fframwaith Arolygu Cyffredinol gael eu gweithredu gan y Prif Arolygydd.

**Argymhelliad 5**
Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg, Gyrfa Cymru a chynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion i hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle.

Rwyf i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ac yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth i hwyluso'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle. Gall sgiliau Cymraeg fod yn fantais i unigolion yn y farchnad swyddi. Mae Gyrfa Cymru a chynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion mewn safle da i gynnig cyngor ac arweiniad proffesiynol ar y cyfleoedd sydd ar gael. Caiff yr wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad lafur ei gosod ar wefan Gyrfa Cymru mewn fformat y gellir ei ddefnyddio a'i ddeall yn rhwydd ac yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y galw gan gyflogwyr am sgiliau Cymraeg mewn wyth sector.

O edrych yn ehangach ar ddarpariaeth addysg gyrfaoedd, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag amrywiol randdeiliaid i ddatblygu rhaglen wedi'i chyllido gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) i gynyddu gallu ysgolion i gyflwyno'r fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith a gwella ansawdd y cyflwyno. Bydd hyn yn cynnwys archwilio'r ddarpariaeth â'r nod o sicrhau bod pobl ifanc yn cael golwg ar y byd gwaith modern, y sgiliau angenrheidiol ac yn bwysig, yr opsiynau gyrfa sydd ar gael.

**Argymhelliad 7**
Awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i hwyluso cymedroli clwstwr Cyfnodau Allweddol 2/3 Cymraeg ail iaith i sicrhau bod athrawon uwchradd yn hollol ymwybodol o ddysgu blaenorol disgyblion fel bod disgyblion yn cael y cyfle i adeiladu ar eu sgiliau a gwybodaeth ar ôl trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae'r trefniadau asesu statudol ar gyfer diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yn cynnwys cyfarfodydd grŵp clwstwr i hysbysu trefniadau pontio. Dylai hyn gynnwys trefniadau cadarn ar gyfer cymedroli enghreifftiau o broffiliau dysgwyr Blwyddyn 6 a Blwyddyn 9 ar gyfer Cymraeg ail iaith, wedi'u dethol o blith ysgolion y grŵp clwstwr ei hun. Dylai'r trefniadau hyn ychwanegu gwerth at y gwaith safoni a chymedroli yn yr ysgol drwy gryfhau asesiad yr athro. Dylent hefyd sicrhau bod arfer dda o fewn y clwstwr yn cael ei nodi, ei rhannu a'i datblygu, er mwyn gosod agenda ar gyfer gwella sy'n adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion lleol.

Gan gydnabod yr angen i wella ein dull o asesu mewn ysgolion ac am ffyrdd mwy cadarn, cyson a dibynadwy i fesur cynnydd dysgwyr, comisiynodd Llywodraeth Cymru Gyngor Ymchwil Addysgol Awstralia (Australian Council for Educational Research) i ymgymryd ag ymchwil i Asesiadau Athrawon cyfredol yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 yng Nghymru, a'u gwerthuso.

Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn ac effaith y trefniadau asesu cyfredol ar hyn o bryd yn cael eu gwerthuso a'u hystyried yn gyfochrog â'r adolygiad ehangach o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a threfniadau Asesu i bennu pa weithredu a chymorth pellach sydd ei angen i sicrhau asesu mwy cyson a dibynadwy gan athrawon.

Rwyf i felly'n cytuno â'r argymhelliad hwn a bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chonsortia ac awdurdodau lleol i sicrhau bod y weithdrefn statudol hon yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol yng nghyd-destun Cymraeg ail iaith.

**Argymhelliad 8**
Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau clir ar ddilyniant o un cyfnod allweddol i'r nesaf, i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau os ydynt yn trosglwyddo o ysgol cyfrwng Cymraeg i ysgol cyfrwng Saesneg.

Rwyf i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Gwella dilyniant ieithyddol yw un o nodau allweddol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac mae'n derbyn sylw yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Felly bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried y galw a chwmpas yr arweiniad yn dilyn canlyniad yr adolygiad annibynnol.

**Argymhelliad 9**
Awdurdodau lleol, fel rhan o'u Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, i sicrhau bod darpariaeth Safon Uwch Cymraeg ail iaith addas ar gael mewn digon o leoliadau ledled Cymru.

Cynnal a chynyddu'r nifer o ddysgwyr sy'n parhau i astudio Cymraeg i Safon Uwch yw un o dargedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a chaiff ei fonitro drwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Er mwyn cwrdd â'r targed hwn, mae'n hanfodol fod darpariaeth ar gael yn rhwydd i ddysgwyr ar draws Cymru allu parhau i astudio Cymraeg. Rwyf i'n cytuno â'r argymhelliad hwn a byddaf yn monitro'n ofalus faint o ddarpariaeth sydd ar gael a faint sy'n dewis ei astudio.

**Argymhelliad 10 (b a c)**
Llywodraeth Cymru, o fewn tair i bum mlynedd, i:

- ddatblygu TGAU llawn newydd (neu gymhwyster cyfwerth) yn seiliedig ar y cwricwlwm diwygiedig a
- dileu'r cwrs TGAU byr.

Rwyf i'n cytuno â'r argymhelliad i ddileu'r cwrs byr. Bydd angen datblygu darpariaeth Cymraeg ail iaith amgen yng nghyd-destun unrhyw gynigion sy'n datblygu yn ystod adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson.

**Argymhelliad 11**
Wrth ddatblygu'r cymhwyster TGAU newydd (neu gymhwyster cyfwerth) sefydliadau dyfarnu i sicrhau bod:

- y maes llafur ddim yn dibynnu'n ormodol ar gyd-destunau neu themâu;
- y prosesau asesu newydd yn cynnwys asesiadau dan reolaeth fwy addas a bod
- cyfleoedd i ailadrodd neu ailysgrifennu ymatebion sydd wedi'u paratoi o flaen llaw mewn asesiadau llafar ac ysgrifennu yn cael eu hosgoi/ lleihau gymaint â phosibl fel bod dysgwyr yn cael eu hannog i baratoi mewn ffordd a fydd yn fuddiol wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ar ôl cwblhau'r cymhwyster.

Rwyf i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Sefydliadau Dyfarnu i sicrhau bod cymwysterau TGAU ail iaith yn briodol ac yn unol â chynigion a ddatblygir yn ystod adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson.

**Argymhelliad 12**
Cymwysterau ôl-16 i gael eu diwygio i gynnwys:

- cymhwyster Safon Uwch sydd â phwyslais ar ddatblygu sgiliau llafar addas ar gyfer y gweithle a
- modiwlau iaith gorfodol i'w cynnwys yng nghymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Rwyf i'n cytuno â'r argymhelliad o ran diwygio cymwysterau Cymraeg ail iaith ôl-16. Y tu hwnt i Gyfnod Allweddol 4, caiff diwygiadau i'r cymwysterau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol Cymraeg ail iaith cyfredol eu gwneud yn unol â'r newidiadau i'r cwricwlwm a'r cymwysterau TGAU. Yn ystod y broses bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Sefydliadau Dyfarnu a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y cymwysterau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol newydd yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn datblygu sgiliau Cymraeg y gellir eu trosglwyddo o'r ystafell ddosbarth a'r neuadd arholi i'w defnyddio yn y gymuned ac yn y byd gwaith.

Yn sgil canlyniad yr Adolygiad o Gymwysterau, mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar fodel diwygiedig ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Yn y model newydd, bydd sgiliau hanfodol yn cael eu datblygu a'u hasesu drwy amrywiaeth o Heriau. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r modd y gellir sicrhau bod Heriau'n ymwneud â Chymraeg ail iaith ac ieithoedd eraill ar gael i grwpiau oedran priodol. Bydd darparwyr dysgu a dysgwyr yn gallu dewis pa Heriau penodol y byddant yn ymgymryd â nhw, ac felly ni fydd unrhyw Her benodol yn orfodol.

Yn ogystal, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r modd y gall modiwlau Cymraeg eraill ffurfio rhan o raglenni dysgu ôl-16.

**Argymhelliad 13**
Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a chanolfannau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i ddarparu canllawiau a hyfforddiant i athrawon ar y dulliau mwyaf effeithiol o addysgu iaith yn seiliedig ar ymchwil a'r arfer orau.

Rwyf i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried y galw am arweiniad a hyfforddiant a'u cwmpas yn dilyn canlyniad adolygiad annibynnol cwricwlwm ac asesu a'r gwaith mae'r Athro John Furlong yn arwain arno yn ei rôl fel ymgynghorydd arbenigol Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 14**
Llywodraeth Cymru i baratoi canllawiau clir i ysgolion ar yr amser mae ar ddisgyblion ei angen i ddysgu ac ymarfer yr iaith er mwyn gwneud cynnydd mewn Cymraeg ail iaith, gan gynnwys enghreifftiau o'r arferion gorau. Llywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau lleol yn archwilio yn rheolaidd, yn nodi ac yn adrodd ar yr amser a glustnodir ar gyfer Cymraeg ail iaith trwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

**Argymhelliad 15**
Llywodraeth Cymru i:

- ddatblygu canllawiau arfer orau ar ddefnyddio Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg yng ngweithgareddau ysgolion, ac ar ddefnyddio Cymraeg ar draws y cwricwlwm, yn seiliedig ar y prosiect peilot i ehangu defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a
- gosod targedau i sicrhau mwy o ddysgu cyfrwng Cymraeg ar draws y cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

**Argymhelliad 17**
Yn seiliedig ar yr arfer orau ac amgylchiadau unigol, ysgolion i:

- gynllunio i sicrhau'r amgylchedd addysgu gorau ar gyfer caffael iaith yn llwyddiannus, gan gymryd maint dosbarthiadau a gallu disgyblion i ystyriaeth ac
- ystyried defnyddio cynorthwywyr addysgu/cynorthwywyr iaith sydd â sgiliau Cymraeg priodol i hwyluso tasgau llafar.

Rwyf i'n cytuno a'r argymhellion hyn mewn egwyddor. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried y galw a chwmpas yr arweiniad a hyfforddiant yn dilyn canlyniad yr adolygiad annibynnol.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i annog ysgolion i rannu arfer dda o fewn consortia ac ar draws consorita. Bydd consortia ac awdurdodau lleol yn parhau i osod targedau priodol ar gyfer gwella darpariaeth Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg drwy eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn archwilio, cofnodi ac adrodd ar yr amser a gaiff ei neilltuo i Gymraeg ail iaith drwy'r Cynlluniau Strategol hyn.

**Argymhelliad 16**
Llywodraeth Cymru i adeiladu ar yr arferion gorau ac i gydweithio ag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion i dreialu cyfnodau dwys o ddysgu Cymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Rwyf i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Roedd y Cynllun Gweithredu Cymraeg ail iaith, a gyhoeddwyd yn 2012, yn cynnwys amcan i sefydlu cyrsiau trochi i ddisgyblion o ysgolion cyfrwng Saesneg i wella eu hyder, eu sgiliau iaith a'u cymhelliant i siarad Cymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid grant i'r Urdd yn 2013 a 2014 i beilota cyrsiau dwys i ddysgwyr a bydd yn parhau i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon a darpariaeth debyg. Caiff dichonoldeb ac ymarferoldeb ehangu darpariaeth o'r fath ac addasu modelau trochi llwyddiannus eraill o Gymru eu hystyried fel rhan o adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson.

**Argymhelliad 18**
Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â chonsortia rhanbarthol i sefydlu grŵp cenedlaethol o ymarferwyr a chynghorwyr consortia rhanbarthol sydd ag arbenigedd mewn Cymraeg ail iaith i ddatblygu adnoddau i'w lledaenu a'u rhannu drwy Hwb, gyda'r nod o leihau dyblygu.

**Argymhelliad 19**
Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gomisiynu adnoddau addysgu cenedlaethol priodol o safon uchel a fydd ar gael i athrawon drwy Hwb.

Rwyf i'n cytuno â'r argymhellion hyn. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gomisiynu adnoddau addysgu a dysgu ansawdd uchel. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gynnal paneli adnabod anghenion sy'n cynnwys ymarferwyr ac ymgynghorwyr i adnabod yr anghenion. Bydd yr adnoddau a ddynodir yn agored i dendro cystadleuol gan gyflenwyr cymeradwy a chaiff datblygiad ac ansawdd eu monitro gan grwpiau o ymarferwyr ac eraill sydd ag arbenigedd mewn Cymraeg ail iaith. Bydd yr adnoddau ar gael yn y fformat priodol a thrwy'r sianeli priodol gan ddibynnu ar ddiben yr adnodd a'r gofyniad.

**Argymhelliad 20**
Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r consortia rhanbarthol i ddatblygu strategaeth hyfforddi genedlaethol, ranbarthol a lleol i ddarparu hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus i ymarferwyr, gan gynnwys:

- hyfforddiant i athrawon uwchradd nad ydynt wedi arbenigo mewn addysgu Cymraeg ail iaith
- hyfforddiant iaith a methodoleg trwy'r Cynllun Sabothol
- cyfleoedd i athrawon arsylwi gwersi o safon uchel a
- lledaenu'r arferion gorau gan gynnwys trwy Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol.

Dylid sicrhau bod ysgolion yn rhyddhau athrawon i fynychu'r hyfforddiant gyda sêl bendith y pennaeth a'r uwch-reolwyr.

Rwyf i'n cytuno a'r argymhelliad hwn. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gyllido gweithgareddau ar lefel ysgol, leol a rhanbarthol fel rhan o'r rhaglen gymorth a gynigir gan gonsortia rhanbarthol drwy'r Grant Cymraeg mewn Addysg. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a bydd yn hwyluso rhannu arfer orau ymhlith ymarferwyr. Bydd cynlluniau cenedlaethol fel y Cynllun Sabothol hefyd yn parhau i ddarparu cyfnodau mwy dwys o hyfforddiant methodoleg addysgu.

**Argymhelliad 21**
Llywodraeth Cymru i gymryd camau i sicrhau bod gan bob ysgol gynradd ac uwchradd niferoedd digonol o athrawon â chymwysterau a'r gallu i addysgu Cymraeg.

Rwyf i'n cytuno a'r argymhelliad hwn mewn egwyddor. Yn dilyn yr adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA) yng Nghymru a gynhaliwyd yn 2013, penodwyd yr Athro John Furlong i weithio gyda'r sector HCA i godi safon, ansawdd a chysondeb hyfforddiant ac asesu mewn canolfannau HCA ar draws Cymru. Bydd ystyriaeth bellach hefyd yn cael ei rhoi i elfennau eraill yn y broses o ddatblygu gweithlu cymwysedig, gan gynnwys y Model Cyflenwi Athrawon a ddefnyddiwyd i lywio targedau derbyn HCA, Rheoliadau Staffio Ysgolion a Safonau Statws Athro Cymwysedig i Gymru, er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn adlewyrchu anghenion y sector yn llawn.

**Argymhelliad 22**
Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i hyrwyddo Cymraeg fel pwnc ar gyfer Safon Uwch a gradd a hyrwyddo addysgu Cymraeg ail iaith fel gyrfa bosibl. Yn ogystal, Llywodraeth Cymru i barhau i gynnig cymhellion i sicrhau bod mwy o fyfyrwyr yn ystyried astudio Cymraeg fel pwnc TAR.

Rwyf i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Roedd y grantiau cymhelliant HCA oedd ar gael yng Nghymru i fyfyrwyr cymwys newydd ar gyrsiau HCA ôl-raddedig (TAR) penodedig yn arwain at Statws Athro Cymwysedig ym mlwyddyn academaidd 2013/14 yn cynnwys £6-15,000 i hyfforddeion a fyddai'n dilyn cyrsiau uwchradd ôl-raddedig mewn Cymraeg. Roedd atodiad cynradd ychwanegol o £1,000 hefyd ar gael i'r rheini oedd â gradd yn y Gymraeg. Mae'r grantiau hyn ar gael ar gyfer pynciau a chyfnodau / camau gwahanol gan ddibynnu ar flaenoriaethau recriwtio a pholisi.

Yn ogystal gallai myfyrwyr sy'n dechrau ar gyrsiau HCA uwchradd ac sy'n hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn gymwys i dderbyn yr Atodiad Gwella Cyfrwng Cymraeg. Mae hwn wedi'i anelu at ddarpar athrawon sydd angen cymorth ychwanegol i godi eu hyder yn eu gallu i addysgu'n effeithiol yn Gymraeg.

Bydd Llywodraeth Cymru'n hwyluso'r gwaith o hyrwyddo Cymraeg fel pwnc ac fel sgil ar gyfer y gweithle.

**Argymhelliad 23**
Canolfannau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon i adolygu pob cwrs TAR a phob cwrs BA Addysg er mwyn:

- cryfhau elfen hyfforddiant methodoleg y cwrs uwchradd Cymraeg ar sail ymchwil a'r arfer orau
- cryfhau hyfforddiant iaith a hyfforddiant methodoleg Cymraeg ail iaith fel rhan o'r cwrs cynradd ar sail ymchwil a'r arfer orau a
- chynnwys ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a chyflwyniad i ddefnyddio Cymraeg achlysurol y tu allan i wersi Cymraeg ar bob cwrs.

Rwyf i'n cytuno a'r argymhelliad hwn mewn egwyddor a chaiff ei fwydo i waith yr Athro Furlong.

**Argymhelliad 24**
Mae cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio ac ymarfer sgiliau iaith yn hanfodol i gadarnhau'r hyn a ddysgir yn yr ysgol ac mae angen i nifer o randdeiliaid rannu'r cyfrifoldeb. Dylent o leiaf gynnwys:

- cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio Cymraeg a chlywed yr iaith yn cael ei defnyddio y tu allan i'r ystafell ddosbarth, o fewn yr ysgol. Dylai hyn fod yn fenter i'r ysgol gyfan yn hytrach nag yn gyfrifoldeb i adrannau ac athrawon Cymraeg yn unig
- mwy o gyfleoedd i ddisgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg ddefnyddio a chlywed Cymraeg y tu allan i'r ysgol. Dylai Llywodraeth Cymru, drwy ariannu mudiadau fel y Mentrau Iaith a'r Urdd, hwyluso hyn a
- mwy o gyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg, yn enwedig gwasanaethau digidol fel bod disgyblion yn cael eu hannog i ddefnyddio'r iaith.

Rwyf i'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Roedd y Cynllun Gweithredu Cymraeg ail iaith, a gyhoeddwyd yn 2012, yn cynnwys amcan i weithio drwy rwydweithiau cyfrwng Cymraeg cyfredol i sefydlu gweithgareddau / prosiectau newydd, arloesol sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'w gwersi Cymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid grant i'r Urdd o 2012- 2014 i beilota gweithgareddau Cymraeg arloesol, mewn partneriaeth â'r Mentrau Iaith ac eraill mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a bydd yn parhau i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon a darpariaeth debyg. Caiff dichonoldeb ac ymarferoldeb ehangu darpariaeth o'r fath eu hystyried fel rhan o adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson.